



Ysgol Gymraeg Aberystwyth

ADRODDIAD BLYNYDDOL LLAWN I RIENI / GWARCHEIDWAID Hydref **2022**

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Pleser yw cyflwyno adroddiad blynyddol ar gyfer Ysgol Gymraeg Aberystwyth fel Cadeirydd y Corff Llywodraethol.

Wrth edrych yn ôl ar y flwyddyn a fu mae'n rhaid cydnabod y bu'n flwyddyn eithriadol o anarferol eto. Yn sgil y pandemic wynebwyd heriau niferus lle y bu rhaid i holl deulu'r ysgol ddod o hyd i ffyrdd newydd o weithio mewn amgylchiadau oedd yn trawsnewid yn gyson. Carwn ddiolch i holl staff yr ysgol, y Pennaeth am ei arweiniad cadarn, y Dirprwy, yr athrawon, cynorthwywyr dysgu a staff ategol am eu hymdrechion a'u llwyddiant yn parhau i ddarparu profiadau gwerthfawr i'r disgyblion. Hoffwn ddiolch hefyd i rieni a gwarcheidwaid am eu cefnogaeth gyson.

Bu'n flwyddyn o ymateb cyson i amgylchiadau newydd gyda llanw a thrai Covid. Bu nifer o'r datblygiadau yn destun balchder mawr; y cyfathrebu cyson oedd yn lleddfu pryderon rhieni, y staff cynorthwyol yn croesawu pob plentyn ar ddechrau'r dydd, ac rwy'n arbennig o falch o'r modd y gwnaeth yr athrawon lwyddo i symud yn ymddangosiadol ddiymdrech o ddysgu yn yr ystafell ddosbarth i ddysgu drwy Teams nifer o weithiau yn ystod y flwyddyn. Bu eu hyblygrwydd a'u gallu i ymateb i'r fath sefyllfaoedd yn destun balchder mawr.

Er gwaetha'r ffaith na lwyddwyd i gynnal y calendr o weithgareddau arferol sydd fel arfer yn dwyn yr ysgol gyfan a rhieni a gwarcheidwaid ynghyd, darganfuwyd ffyrdd newydd o ddarparu profiadau i bawb. Braff yw medru ymfalchïo yn arloesedd y cyfloed newydd hyn.

Gyda blwyddyn academiaidd newydd o'n blaenau, ac ansicrwydd pellach ynglŷn â goblygiadau'r pandemic, gellid wynebu'r cyfnod hwn gyda hyder bod gennym yn yr ysgol yr arweiniad, y creadigrwydd a'r ewyllys i ddarparu addysg a gofal gorau, ac rwy'n siŵr y gallaf siarad ar ran y corff Llywodraethol i gyd wrth fynegi diolch i'r Pennaeth a'r holl staff am eu gwaith rhagorol.

Mae niferoedd y disgyblion sy'n mynychu'r ysgol yn parhau'n gyson gyda'r nifer yn gyson uchel. Roedd 435 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol ym Mis Gorffennaf 2022 gyda Phennaeth, Dirprwy Bennaeth, 15 athrawon amser llawn amser a 6 o athrawon rhan amser. Mae tri aelod o'r staff yn gweithredu fel Penaethiaid Adran yn y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 a'r Adran Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae gan yr ysgol dîm effeithiol o Gynorthwywyr sy'n cynorthwyo yn y Cyfnod Sylfaen ac yn cefnogi disgyblion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Mae gan yr ysgol griw gweithgar o staff ategol sy'n cefnogi'r gwaith o ddarparu'r cyfleoedd gorau i'r disgyblion. Mae'r tîm yn cynnwys ysgrifenyddes, gofalwr, tri o lanhawyr, pump o gynorthwywyr cinio a phump o staff yn y gegin.

Amser a lleoliad y Cyfarfod - Mae'r gofynion ar gyfer yr angen i gynnal Cyfarfod Blynyddol y Llywodraethwyr wedi newid (gweler y manylion isod). Ni fu galw dros gynnal cyfarfod o'r Llywodraethwyr gyda'r Rhieni yn unol ag adran 94 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru 2013) yn ystod y flwyddyn addysgol ddiweddaraf.

Gweler y manylion isod sy'n tynnu sylw at ofynion cynnal cyfarfod blynyddol.

Newidiadau i gyfarfodydd Blynyddol y Rhieni / Llywodraethwyr

Mae Adran 94 y Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (y Ddeddf) yn gwneud newidiadau pwysig i'r trefniadau deddfwriaethol blaenorol oedd yn ymwneud â Chyfarfodydd Blynyddol y Rhieni/Llywodraethwyr. Mae'n darparu trefniadau newydd lle gall rhieni ofyn am gyfarfod gyda chorff llywodraethol.

Fodd bynnag, bydd angen i'r rhieni fodloni pedwar (4) gofyniad statudol wrth alw cyfarfod sef:-

- (i) rhaid i rieni 10% o'r disgyblion cofrestredig, neu rieni 30 o'r disgyblion cofrestredig (pa un bynnag sydd isaf) arwyddo deiseb yn gofyn am gyfarfod;*
- (ii) rhaid mai diben y cyfarfod yw trafod materion sy'n ymwneud â'r ysgol;*
- (iii) y nifer fwyaf o gyfarfodydd y gall rhieni ofyn amdanynt o fewn unrhyw flwyddyn ysgol yw tri (3);*
- (iv) rhaid bod yna ddigon o ddiwrnodau ysgol ar ôl yn y flwyddyn ysgol i ganiatáu cyfarfod.*

At hynny:-

- (a) rhaid cynnal y cyfarfodydd cyn diwedd cyfnod o 25 niwrnod;*
- (b) mae'r cyfnod o 25 niwrnod yn cychwyn y diwrnod ar ôl derbyn y ddeiseb, ond nid yw'n cynnwys unrhyw ddiwrnod nad yw'n ddiwrnod ysgol;*
- (c) os oes angen cynnal cyfarfod arall o ganlyniad i ddeiseb wahanol, ni fydd y cyfnod o 25 niwrnod yn dechrau tan y diwrnod ar ôl cynnal y cyfarfod arall;*
- (ch) rhaid bod digon o ddyddiau ar ôl yn y flwyddyn ysgol i gynnal cyfarfod cyn diwedd y cyfnod o 25 niwrnod;*
- (d) bydd cyfarfodydd yn agored i holl rieni'r disgyblion cofrestredig yn yr ysgol, y Pennaeth ac unrhyw un arall a wahoddir gan y corff llywodraethol;*

(dd) mae'n rhaid i hysbysiad y cyfarfodydd i'r rhieni gynnwys dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod ynghyd â'r mater neu faterion i'w trafod.

Y mae copi o'r adroddiad hwn ar gael yn Adran y Llywodraethwyr ar safle we'r ysgol - www.ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk <<http://www.ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk/>>.

Clerc y llywodraethwyr - Adran Addysg Cyngor Sir Ceredigion, Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, SY23 3UE.

Cadeirydd y llywodraethwyr – Kate Woodward Katewoodward123@gmail.com

Trefniadau etholiad nesaf y Corff Llywodraethol – mi fydd yr Awdurdod Addysg a'r ysgol yn hysbysu rhieni / gwarcheidwaid am drefniadau unrhyw gyfleoedd i fod yn rhan o'r Corff Llywodraethol a threfniadau etholiadau.

Hyfforddiant Mewn Swydd - gellir cael manylion llawn o'r cyrsiau a fynychwyd gan y staff rhwng Medi 2021 a Gorffennaf 2022 o'r ysgol (gweler enghreifftiau o'r cyrsiau isod). Carwn ddiolch i'r staff am fynychu'r cyrsiau hyn.

Dyma flas o'r Hyfforddiant Mewn Swydd a fynychwyd;

Gweithdy 1 a 2 yr Awdurdod Addysg	
Paratoi ar gyfer hyfforddi Cohort newydd gyda'r Academi	
Hyfforddiant Mentoriaid Aber Addysgu+	
Hyfforddiant Llais y Disgybl	
Asesiad Ysgolion Iach	
Trefniadau Iechyd a Diogelwch, Diogelu Plant, Cymorth Cyntaf, Cynnydd disgyblion, grwpiau targed	
Diweddariad am egwyddorion y Cwricwlwm Newydd	
Academi Arweinyddiaeth – cymeradwyo cyrsiau	
Cyfarfod Penaethiaid Aberystwyth	
Hyfforddiant ar lein ar gyfer trefniadau Anghenion Dysgu Ychwanegol	
Cynhadledd Penaethiaid Ceredigion	
Dysgu digidol dros Teams	

Cyfleoedd i rannu Arferion da gydag ysgolion a sefydliadau

Rôl yr ysgol o fewn y system addysg ehangach ar lefel lleol, rhanbarthol a chenedlaethol:

Cwricwlwm i Gymru 2022	<ul style="list-style-type: none">• Yr ysgol yn rhan o brosiect ymchwil gyda Phrifysgol Met Caerdydd er mwyn rheadru gwybodaeth am y Cwricwlwm Newydd gydag ysgolion sydd ddim yn rhan o'r rhwydwaith arloesol• Cyfarfodydd wedi eu cynnal gydag ysgolion lleol yng nghylch Aberystwyth i rannu gwybodaeth
-------------------------------	---

<p>Anghenion Dysgu Ychwanegol</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r ysgol yn y broses o addasu trefniadau ADY er mwyn cwrdd â gofynion y Cod ADY Newydd • Llynedd bu'r ysgol yn rhoi sylw arbennig i: <ul style="list-style-type: none"> - Proffiliau Un Tudalen i bob disgybl ar y gofrestr ADY (GY, GYM, GYMRA) gan gynnwys llais y disgybl - Adolygiadau Person Canolog - Dilyn y broses person canolog ym mhob cyfarfod ADY - Cyfarfodydd i hyfforddi staff ar y newidiadau sydd ar y gweill • Eleni y ffocws fydd yn parhau i baratoi i weithredu newidiadau ar gyfer y Còd Newydd. • Mae Cathryn James, cydlynnydd ADY yr ysgol wedi bod ar secondiad 2 ddiwrnod yr wythnos yn yr Adran ADY gydag Awdurdod Addysg Ceredigion. O Fedi 2022 mi fydd yn symud i weithio'n llawn amser gyda'r Awdurdod Addysg ac mi fydd Gareth James yn cychwyn fel CADY o Fedi 2022
<p>Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth ArweinyddiaethAddysgol</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Pennaeth yn rhan o'r cohort cyntaf o benaethiaid sydd wedi cynorthwyo i sefydlu gweledigaeth a datablygu rhaglen waith yr Academi. • Pennaeth yn weithredol bellach fel hyfforddwr / hwylusydd i hyfforddiant a phrofiadau dysgu yr aelodau newydd.
<p>Partneriaeth Hyfforddi Darpar Athrawon - Aber Addysgu+</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Ysgol Gymraeg yn ysgol arweiniol yn y bartneriaeth gyda'r Brifysgol yn Aberystwyth ac wedi bod yn rhan o'r broses o lunio'r cwrs. • Mae'r cwrs yn weithredol ers Medi 2019. • Mi fydd y myfyrwyr yn cael profiadau yn y cynradd a'r sector uwchradd
<p>Ymgynghorydd Cynorthwyo gydag Awdurdod Addysg Ceredigion</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Pennaeth wedi bod yn gweithredu fel Ymgynghorydd Her gyda'r Awdurdod Addysg ers 8 mlynedd. • Mae'r gwaith yn cynnwys cefnogi ysgolion yn y broses o hunanwerthuso ar gyfer gwella a chodi safonau.

Cyfarfod Blynyddol (Hydref 2021)

Nid oedd galw am gyfarfod yn ystod Hydref 2021. Fodd bynnag cafwyd cyfle i drafod datblygiadau'r ysgol yn ystod Cyfarfod Blynyddol rhithiol y Gymdeithas Rieni ac Athrawon - rhoddwyd cyflwyniad am feysydd penodol yn ymwneud â dysgu ac addysgu a'r Cynllun Datblygu Ysgol.

Camau a gymerwyd o ganlyniad i unrhyw benderfyniadau a wnaed yn y cyfarfod - Ni chafwyd penderfyniad yng nghyfarfod Hydref 2021.

Rhydd yr atodiad restr o lywodraethwyr yr ysgol, pwy sy'n eu hapwyntio a'r dyddiad y daw tymor mewn swydd i ben.

Manylion ariannol -

- **Gweler atodiad sy'n amlinellu datganiad llawn o gyllideb yr ysgol.**

Sut mae'r ysgol yn defnyddio'r arian a dderbynnir

- Yn gyffredinol mae cyllidebau ysgolion yn faes heriol iawn dros y blynyddoedd diweddaraf ac rydym yn gweithio'n agos iawn gyda'r Awdurdod Addysg er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r arian sydd ar gael. Defnyddiwyd cyllideb yr ysgol er mwyn sicrhau'r profiadau addysgol gorau i'r disgyblion ac i sicrhau adnoddau addas ar eu cyfer.
- Mae'r ysgol yn defnyddio cyllid ychwanegol i dargedu llythrennedd a rhifedd.

Grant Amddifadedd Cymdeithasol - Mae'r Grant Amddifadedd Cymdeithasol yn cael ei ddefnyddio'n bwrpasol er mwyn diwallu anghenion disgyblion penodol, trefnwyd adnoddau a staff ychwanegol i gefnogi a chodi safonau yn y meysydd yma.

Rhoddion i'r ysgol

- Derbyniwyd cyfraniadau hael gan y Gymdeithas Rieni sy'n cynnwys nawdd gan fusnesau lleol yn sgil noddi cyngherddau Nadolig a'r Wyl Haf. Mae'r ysgol yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth yn fawr.

Lwfansau neu gynhaliaeth i'r Bwrdd llywodraethol

- Costau teithio'r Llywodraethwyr - Ni dalwyd unrhyw gostau i'r llywodraethwyr yn ystod y flwyddyn 2021-22. Dymunaf ddiolch i'm cyd lywodraethwyr am roi eu gwasanaeth yn hollol wirfoddol er budd a lles yr ysgol.

Safonau a Chynnydd disgyblion

Rydym am weld pob disgybl yn cyrraedd ei botensial ac mae'r ysgol yn bles iawn gydag asesiadau'r athrawon ar gyfer y disgyblion yn y ddau Gyfnod Allweddol. Mae'r asesiadau mewnol yn gadarnhaol ac yn adlewyrchiad o waith caled y disgyblion, y staff a chydweithrediad y rhieni / gwarcheidwaid.

Presenoldeb y disgyblion

Sylwebaeth am bresenoldeb yr ysgol

Rydym yn bles gyda chyfartaledd presenoldeb yr ysgol. Gosodwyd targedau gan y llywodraethwyr am y tair blynedd nesaf er mwyn parhau i wella presenoldeb. Bu'r ysgol yn rhoi ffocws ar brydlondeb yn ystod y flwyddyn, hoffwn ddiolch i'r rhieni a'r gwarchodwyr am ymateb yn bositif i'r ymgyrch.

Gwella presenoldeb a lleihau absenoldebau anawdurdodedig

Mae'r ysgol yn dilyn camau pendant i leihau absenoldebau heb ganiatâd, Mae plant sy'n cyrraedd yn hwyr yn medru effeithio ar absenoldebau anawdurdodedig. Mae'r ysgol yn danfon llythyr i rieni i bwysleisio prydlondeb

ac i dynnu sylw at y sefyllfa lle mae rhai yn cymryd gwyliau yn ystod tymor yr ysgol. Mae'r ysgol yn cysylltu gyda rhieni / gwarcheidwaid lle mae lefel presenoldeb yn isel neu'n anghyson.

Targedau ar gyfer presenoldeb

Targedau presenoldeb am y flwyddyn addysgol 2022 -2023 - 96.7%

Targedau presenoldeb am y flwyddyn addysgol 2023-2024 - 96.7%

Targedau presenoldeb am y flwyddyn addysgol 2024-2025 - 96.7%

Plant sy'n gadael yr ysgol ar ddiwedd Blwyddyn 6 – mae disgyblion ar ddiwedd Blwyddyn 6 yn trosglwyddo fel arfer i ysgolion uwchradd y dref sef Penweddig a Phenglais. Eleni aeth 45 i Benweddig a 6 i Benglais. Mae gan yr ysgol bartneriaeth bositif gyda'r ysgolion uwchradd ac yn gweithredu cynlluniau pontio effeithiol. Dymunwn yn dda i'r criw sydd wedi trosglwyddo eleni.

Meithrin cysylltiadau rhwng yr Ysgol a'r Gymuned

Y mae'r ysgol yn un o brif sefydliadau'r dref ac yn rhan annatod o'r gymuned leol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd arbennig o adnoddau lleol gan gynnwys y Llyfrgell Genedlaethol, Y Brifysgol, Canolfan Hamdden, Canolfan y Celfyddydau a'r ysgol uwchradd leol. Bu'r ysgol ar nifer o ymweliadau addysgol gan gynnwys Castell Henllys, a Ffermydd lleol a.y.b. Bu'r ysgol yn perfformio i fudiadau lleol ac mae cefnogaeth dda iawn i'r Wyl Haf newydd ar gae'r ysgol a'r barbeciw/ noson gymdeithasol ar ddiwedd y tymor.

Cynhaliwyd gweithgareddau er mwyn hybu dealltwriaeth o godi arian at achosion da yn ystod y flwyddyn. Casglwyd symiau hael ar gyfer Plant Mewn Angen.

Cymdeithas Rieni ac Athrawon / Cyfeillion yr Ysgol

Hoffwn ddiolch i'r Gymdeithas Rieni ac Athrawon a holl gyfeillion yr ysgol am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn. Mae'r Gymdeithas Rieni ac Athrawon yn weithgar a brwdfrydig iawn ac yn llwyddo i gynnal amrywiol weithgareddau i godi arian tuag at brynu adnoddau ac i drefnu achlysuron cymdeithasol gyda naws deuluol Gymreig iddynt.

Rydym yn edrych ymlaen i ail gydio'n llawn yn amserlen y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon o Fedi 2022 ymlaen.

Cyfarfodydd Rhieni / gwarcheidwaid - mae yna bartneriaeth ragorol yn bodoli gyda'r rhieni. Yn ystod blwyddyn arferol trefnir;

- Cyfarfod blynyddol y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon.
- Nosweithiau agored bob tymor a gwahoddiad i'r rhieni / gwarcheidwaid i ddod i'r ysgol ar ôl derbyn adroddiadau eu plant ym mis Gorffennaf.
- Gwahoddiad i rieni /gwarcheidwaid ddod i brynhawn agored yn yr ysgol.
- Gwahoddiad i fabolgampau'r ysgol.
- Cynhelir dau gyngerdd mawreddog y flwyddyn (gyda thua 800 yn mynychu bob tro). Bellach mae'r Wyl Haf wedi bod yn ychwanegiad poblogaidd.
- Cyfarfod ar gyfer rhieni / gwarcheidwaid plant y meithrin sydd am gychwyn yn yr ysgol.
- Cyfarfod rhwng rhieni / gwarcheidwaid plant sy'n derbyn cefnogaeth a'r athrawon arbenigol.
- Mae'r pennaeth yn nodi ar bob llythyr "os oes gennych unrhyw bryderon am addysg eich plantyn yna cysylltwch â mi ar unwaith"

Defnydd o'r adeilad / campws - Cyfarfod rhieni ac athrawon yr Ysgol Gymraeg, rhai timau pêl-droed, Yr Angor (papur bro Aberystwyth), Adran Tref Aberystwyth, Cyfarfodydd Cenedlaethol yr Urdd, Eisteddfodau'r Urdd a'r Clwb Bridge.

Cysylltiadau gyda'r heddlu – mae swyddogion o'r heddlu yn gweithio'n agos gyda'r ysgol ac yn cyfrannu yn bositif at weithgareddau addysg bersonol a chymdeithasol. Mae'r heddlu yn trafod gyda'r Cyngor Ysgol ac yn cynorthwyo gyda'r drafndiaeth ger mynedfa'r ysgol.

Cynnydd ar Gynllun Gweithredu'r Ysgol (ar ôl arolygiad)

Mae'r ysgol yn gweithredu'r Cynllun Gweithredu yn dilyn adroddiad Estyn 2016. Dyma grynodeb o'r datblygiadau.

Disgrifiad/gweithgaredd/cynnydd	Cynnydd
A1 - Sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau technoleg gwybodaeth a thechnoleg (TGCh) disgyblion yn adeiladu'n fwy systematig ar y rheini y maent eisoes wedi eu caffael	<p>Rydym bellach wedi cynllunio pob llinyn o'r FfCD ar draws yr ysgol ac wedi adnabod cyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu eu sgiliau yn fwy systematig.</p> <p>Mae amserlen iPad newydd wedi ei greu sy'n caniatáu gwell defnydd ohonynt ar draws CA2.</p> <p>Er mwyn ymateb i ofynion newydd y FfCD, mae'r athrawon wedi bod yn defnyddio j2e er mwyn rhannu gwaith cartref a negeseuon pwysig.</p> <p>Ymateb i argymhellid ôl-arolwg Estyn</p> <p>Rydym wedi creu taflenni asesu i'w rhoi yn llyfrau'r disgyblion er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn ymwybodol o'r sgiliau TGCh sydd eu hangen arnynt. Bwriad y taflenni yw rhoi'r cyfle i'r disgyblion adnabod eu cryfderau a'u gwendidau ac er mwyn adnabod y sgiliau TGCh maent yn eu caffael yn ystod y gwersi ac ar draws y cwricwlwm.</p>

Hunan arfarnu a Chynllun Datblygu Ysgol

Prif flaenoriaethau'r ysgol

1. Codi safonau llythrennedd grwpiau penodol o ddisgyblion ar draws yr ysgol.
2. (Estyn 2016) Sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau technoleg gwybodaeth a thechnoleg (TGCh) disgyblion yn adeiladu'n fwy systematig ar y rheini y maent eisoes wedi eu caffael
3. Datblygu cynlluniau ar gyfer y Cwricwlwm newydd.
4. Datblygu sgiliau ac ehangu gwybodaeth yr holl staff i weithredu yn unol â gofynion y mesur ADY newydd

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da i ddatblygu agweddau'r Cynllun Datblygu Ysgol yn ystod y flwyddyn flaenorol - gellir cael copi llawn o'r CDY gan y pennaeth.

Gwelliannau a osodwyd gan y Corff Llywodraethol ynglŷn â pherfformiad y disgyblion

- Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da o safbwynt sicrhau fod pob plentyn yn cyrraedd ei botensial ar draws y cwricwlwm.
- Mae'r llwyddiant y disgyblion yn adlewyrchu yn bositif ar y targedau heriol a osodwyd pob blwyddyn.
- Mae plant yn derbyn targedau cyson mewn Iaith, Mathemateg, Gwyddoniaeth a Saesneg yng Nghyfnod Allweddol 2.
- Rhoddir adroddiad manwl i bob rhiant ar ddiwedd y flwyddyn a bydd nosweithiau agored cyson a chyfle i drafod yr adroddiad diwedd y flwyddyn.

Diarddel Plant

Dim gwaharddiadau

Adolygu Polisiâu a strategaethau'r ysgol - mae'r ysgol yn adolygu polisiâu yn gyson er mwyn sicrhau'r ddarpariaeth orau ar gyfer y disgyblion. Yn ystod 2021 – 22 adolygwyd holl bolisiâu'r ysgol ac yn benodol y rhai sydd yn ymwneud ag iechyd a diogelwch, diogelu plant, bwlio, a rhai agweddau cwricwlaidd. Mae copïau o'r polisiâu ar gael o'r ysgol neu ar y wefan. Mae'r rhestr o'r polisiâu sydd wedi eu hadolygu yng nghofnodion y llywodraethwyr ger y brif fynedfa.

Gweithredu ar ôl adolygu polisiâu - Mae'r datblygiadau yn cael eu monitro'n gyson yn y cyfarfodydd tymhorol. Mae staff o'r ysgol wedi derbyn hyfforddiant pellach ar ddiogelu plant a gweithredu gweithdrefnau ysgol awtistiaeth gyfeillgar. Mae'r ysgol wedi gwella diogelwch drwy wella'r ffensys sydd rhwng yr ysgol a'r Clwb Rygbi.

Chwaraeon a Gweithgareddau Allgyrsiol

Mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth o weithgareddau chwaraeon ym mhob agwedd o Addysg Gorfforol. Mae'r disgyblion yn meithrin sgiliau a phrofiadau o'r Meithrin i fyny at Flwyddyn 6.

Mae yna raglen allgyrsiol eang sy'n anelu at foddio diddordebau holl ddisgyblion yr ysgol. Cynhelir Clwb yr Urdd yn wythnosol lle mae staff yr ysgol yn gwirfoddoli i gynnig gweithgareddau amrywiol i'r disgyblion.

Mae'r gweithgareddau yng Nghyfnod Allweddol 2 yn cynnwys chwaraeon, clwb rhedeg wythnosol chwys trabwdd, beicio, clwb celf, clwb gymnasteg a chlybiau gweithgareddau amrywiol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r ysgol yn cefnogi gweithgareddau hoci gyda chyngrhair y Mini Minor pob nos Wener.

Mae cysylltiad cryf yn bodoli rhwng yr ysgol â mudiad yr Urdd ac mae disgyblion yn cael profiadau cyfoethog wrth ddilyn rhaglen o weithgareddau'r flwyddyn.

Eisteddfod yr Urdd – Braff oedd gweld disgyblion o'r ysgol yn cymryd rhan yn yr Eisteddfod Sir Ddinbych eleni. Hoffwn ddiolch i'r staff am hyfforddi ac i'r holl ddisgyblion fu'n cynrychioli'r ysgol.

Bwyta ac yfed yn iach – mae'r ysgol yn hybu iechyd y disgyblion ac yn awyddus eu bod yn magu patrymau iachus o fwyta ac yfed. Mae cinio ysgol iachus yn cael ei ddarparu yn ddyddiol ac anogir disgyblion i fwyta pecynnau bwyd iach i ginio. Mae digon o ddŵr ar gael i'r disgyblion, anogir pob disgybl i ddod â photel bwrpasol ar gyfer ei llenwi yn ystod y dydd.

Newidiadau i Lawlyfr yr ysgol – Mae'r llawlyfr yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau yn dymhorol. Mae copi o'r llawlyfr ar gael ar wefan yr ysgol neu drwy law'r pennaeth. Bu newidiadau i gynnwys y llawlyfr yn ystod y flwyddyn gyfredol er mwyn gwella'r diwyg.

[Dyddiadau'r tymor ar gyfer y flwyddyn](#)
(gweler atodiad)

Diwrnodau cau HMS

Medi 1af, 2ail (dyddiadau ychwanegol i'w trefnu yn 2022)

Amserau Sesiynau (hyn wedi newid dros dro yn sgîl sefyllfa Covid 19 – gweler llythyr y pennaeth am ragor o wybodaeth)

	CA 2	Cyfnod Sylfaen	Meithrin
Cychwyn yr ysgol	9.00	9.00	9.00
Egwyl bore	10.30 – 10.45	10.30 – 10.45	10.30 – 10.45
Cinio	12.00 – 1.00	11.45 – 1.00	11.50 – 1.15

Cychwyn y prynhawn	1.00	1.00	1.15
Egwyl y prynhawn	2.20 – 2.30	2.20 – 2.30	2.20 – 2.30
Amser gorffen	3.25 – Bl 3 a 4 3.30 – Bl 5 a 6	3.15 Derbyn 3.20 Bl 1 a 2	3.15

Cwricwlwm a threfniadaeth addysgu

Mae'r ysgol yn un o ysgolion arloesol Cymru ac yn gweithredu fel sefydliad sy'n rhannu arfer dda ac yn arloesi ym myd addysgu a dysgu. Mae ansawdd ac amrywiaeth y profiadau dysgu a ddarperir i'r disgyblion ar draws yr ysgol yn bwysig iawn i ni. Cynigir cwricwlwm eang a chytbwys sy'n cwrdd â'r holl ofynion statudol. Mae'r athrawon yn parhau i adolygu'r cwricwlwm yn sgil datblygiadau newydd. Mae pwyslais mawr yn cael ei osod ar ddatblygu sgiliau cyfathrebu, sgiliau rhif, sgiliau TGCh a sgiliau meddwl. Mae'r ysgol wedi cydweithio yn agos iawn gyda Phrifysgol Aberystwyth ar gyfer datblygu rhaglen o brofiadau cyfoethog i ddarpar athrawon y dyfodol.

Anghenion Dysgu Ychwanegol Mae'r ysgol yn gwneud pob ymdrech i sicrhau fod pob plentyn yn teimlo'n rhan annatod o fywyd a gwaith yr ysgol ac yn cyflawni eu potensial fel unigolion. Mae'r ysgol yn adolygu'r polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol yn rheolaidd er mwyn sicrhau cefnogaeth addas i ddisgyblion.

Disgyblion sydd ag anableddau Mae campws yr ysgol wedi ei addasu'n gyson er mwyn rhoi mynediad rhwydd i ddisgyblion sydd ag anableddau, gosodwyd rampiau i hybu mynediad i ddosbarthiadau a llwyddwyd drwy gynllunio gofalus i blethu plant ag anableddau yn llawn i gwricwlwm yr ysgol.

Categori iaith yr ysgol – Ysgol Gymraeg benodedig (C)

Defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol

- Defnyddir y Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 fel y brif iaith ym mhob rhan o waith cwricwlaidd ac allgyrsiol yr ysgol. Cyflwynir Saesneg i ddisgyblion ym Mlwyddyn 3.
- Y Gymraeg yw iaith gyfathrebu naturiol yr ysgol.
- Nid oes unrhyw gyfyngiad ar ddefnydd y Gymraeg yn yr ysgol, hyrwyddir y Gymraeg ym mhob agwedd o fywyd a gwaith Ysgol Gymraeg Aberystwyth.
- Mae'r ysgol yn sicrhau drwy gynllunio gofalus fod yna barhad a datblygiad cyson yn y profiadau i ddefnyddio'r Gymraeg yn holl weithgareddau cwricwlaidd ac allgyrsiol yr ysgol.
- Mae disgyblion sy'n hwyr ddyfodiaid i'r ysgol yn medru cymryd mantais o ddarpariaeth y Ganolfan Iaith a drefnir gan yr Awdurdod Addysg yn ysgol uwchradd Penweddig.
- Mae disgyblion yn trosglwyddo i ysgolion uwchradd y dref lle mae cyfleoedd iddynt barhau i ddatblygu eu defnydd o'r Gymraeg. Mae cyfleoedd pontio estynedig ar gael i ddisgyblion sydd angen magu rhagor o hyder yn y Gymraeg ar gael yn ystod tymor yr Haf.

Trefniadau a chyfleusterau toiled -

Mae gan yr ysgol nifer addas o doiledau ar gyfer y disgyblion sydd wedi eu cofrestru yn yr ysgol. Mae'r chyfleusterau yn cael eu glanhau yn ddyddiol gan wasanaeth glanhau'r Awdurdod Addysg. Mae 'Pwyllgor Taclo'r Toiledau' yn effeithiol sef criw o ddisgyblion sy'n gweithio ar ran y Cyngor Ysgol i wella'r toiledau gyda'r Uwch Dim Rheoli.

Cynnal a chadw'r adeiladau

Mae'r ysgol wedi datblygu caban addysgu ADY allanol ac ardal yr ardd natur yn ystod y flwyddyn. Mae'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon wedi cyfrannu'n hael at y datblygiadau yma. Mae cynlluniau yn cael eu paratoi ar gyfer adeilad newydd (10 dosbarth) i'r ysgol yn ystod y blynyddoedd nesaf. Mae'r ysgol yn

gwerthfawrogi cefnogaeth Llywodraeth Cymru i Addysg Gymraeg ac i'r Awdurod Addysg am baratoi cais llwyddiannus ar gyfer cyllid o 5.7 miliwn ar gyfer yr estyniad newydd.

Diogelwch

Y mae yswiriant yr ysgol yn caniatáu disgybl i fod yn yr ysgol o 8.45 ymlaen (Clwb Brecwast 8.15-8.45). Yn y prynhawn bydd plant y Meithrin a'r Derbyn yn gadael am 3.15, B1 1 a 2 am 3.20, B1 3 a 4 am 3.25 a B1 5 a 6 am 3.30. Cyn hynny mae disgwyl i rieni neu warchodwyr nodi eu presenoldeb yn y swyddfa ger y brif fynedfa. Rhaid parcio'n ofalus o flaen yr ysgol a pheidio parcio mewn mannau anabl/tacsi nac ar y gwair. Ni ddylid ychwaith barcio ar ffordd ysgol Plascrug oherwydd y peryg o dagfeydd traffig.

Mae diogelwch yn bwysig iawn i'r llywodraethwyr, yr Uwch Dim Rheoli, y Cyngor Ysgol a'r staff. Rhaid bod yn ofalus a pharchu eraill.

Datblygiadau diogelwch yr adeilad – mae adnewyddu'r ffens sy'n rhan o ardal y mae chwarae wedi gwella diogelwch ac yn atal mynediad i ddiethriaid.

Torri i mewn

Ni chafwyd yr un achos o dorri i mewn i'r ysgol yn ystod y flwyddyn academaidd yma.

Gobeithio eich bod wedi cael budd o ddarllen am ddatblygiadau'r ysgol brysur hon. Cofiwch gysylltu gyda'r Pennaeth os ydych am wybodaeth bellach am ddatblygiad yr ysgol.

Diolch i chi eto fel rhieni am eich ymrwymiad i'r ysgol, mae eich cefnogaeth yn rhan bwysig o ddatblygiad addysgol a chymdeithasol eich plant ac i ddiwylliant unigryw'r Ysgol Gymraeg.

Kate Woodward, Cadeirydd y Llywodraethwyr